FIN(3)-07-10 : Paper 5

**Leighton Andrews AC/AM**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg & Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Children, Education & Lifelong Learning**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/LA/133/10 & SF/LA/0134/10

Angela Burns AM,
Chair of Finance Committee,
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

24th March 2010

Dear Angela,

**Finance Committee reports on the Foundation Phase and Specific Education Grants**

Further to your letter dated 23rd February requesting an update on the Welsh Assembly Governments original responses to the Committee's inquiries into the Foundation Phase and Specific Education Grants. Please find update papers attached at Annex one and Annex two.

Yours Sincerely,

**Leighton Andrews AM**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Children, Education & Lifelong Learning**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

# YMATEB LLYWODRAETH Y CYNULLIAD I ADRODDIAD PWYLLGOR CYLLID Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL AR Y CYFNOD SYLFAEN - Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF YM MIS MAWRTH 2010

**Crynodeb:** Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid Adroddiad ar y Cyfnod Sylfaen a oedd yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud yn siwr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu yn y ffordd orau bosibl dros y pedair blynedd nesaf.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf o ran gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r papur hwn yn rhoi'r dystiolaeth bod Llywodraeth y Cynulliad hyd yma wedi sicrhau'r cyllid sydd ei angen i wneud yn siwr ei fod yn cael ei weithredu.

## Cyflwyniad

1. Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ar y Cyfnod Sylfaen - adroddiad yr ymatebodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd, iddo ar 1 Hydref 2008. Roedd hwn yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud yn siwr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu yn y ffodd orau bosibl dros y pedair blynedd nesaf.

2. Ar 23 Chwefror 2010, ysgrifennodd Angela Burns, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, at Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf o ran gweithredu'r argymhelliad. Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid am y cynnydd a wnaed yn y prif feysydd sy'n cyfrannu at weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

## Cyllid

3. Mae buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad o £170m yn ystod tair blynedd gyntaf ei weithredu yn dangos ei hymrwymiad i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Er mwyn sicrhau bod y cyllid hwn yn cael yr effaith fwyaf, gweithiom gyda CLILC a Chyfarwyddwyr Addysg i ddatblygu grant penodol a dull cyllido sy'n targedu pedwar prif ddiben, sef:
    - cyflogi cynorthwywyr dosbarth i'w gwneud yn bosibl i ysgolion gadw at y cymarebau oedolion/disgyblion sydd wedi'u gwella, sef 1:8 i blant 3 i 5 oed ac 1:15 i blant 5 i 7 oed;
    - cyflogi Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth i reoli a darparu hyfforddiant ymarferwyr;
    - darparu rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen;
    - rhoi amser (10%) i athrawon cymwysedig mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir.

4. Ers dechrau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, mae setliadau cyllidebau olynol wedi'u cynyddu i adlewyrchu anghenion ysgolion ac awdurdodau lleol.

5. Yn 2008-09, roedd cyfanswm o £32m ar gael, gan gynnwys £5m ychwanegol ar gyfer yr ysgolion a'r lleoliadau peilot. Yn 2009-10, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £39m i £59m, cynnydd o £20m. Ar gyfer 2010-11, mae £20m arall wedi'i ryddhau, sy'n dod â'r gyllideb i £79m a chyfanswm y buddsoddiad hyd yma i £170m. Mae'r cyllid ar gyfer 2011-12 yn parhau i gael ei ystyried.

6. Cyfrifir cyllideb y Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio model ariannol profedig sy'n ystyried lefelau staffio, niferoedd disgyblion, graddfeydd cyflog, chwyddiant a ragwelir a dyfarniadau cyflog. Caiff y model ei addasu bob blwyddyn.

7. Dyrennir y grant i awdurdodau lleol gan ddefnyddio fformwla y cytunwyd arno gyda Chyfarwyddwyr Addysg a CLILC. Mae hwn yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ym mhob awdurdod lleol a'i nod yw dosbarthu'r cyllid mewn ffordd deg. Disgwylir i'r awdurdodau lleol reoli amgylchiadau lleol o fewn eu dyraniadau. Yn 2010-11, mae cyfanswm o £76m wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol i gyflawni'r pedwar amcan. Mae APADGOS yn defnyddio'r gweddill i fodloni ymrwymiad cytundebol o dan raglen Iaith Pawb (£2m); i roi cymorth i'r ysgolion peilot/Dechrau'n Gynnar, y mudiadau gwirfoddol; a deunyddiau/hyfforddiant ymarferwyr.

8. Mae'r diweddaraf ar y cynnydd a wnaed wedi'i nodi isod.

**Cynorthwywyr Dosbarth a Chymarebau Oedolion/Disgyblion**

9. Ers Medi 2008, mae dros 3,600 o gynorthwywyr dosbarth ychwanegol wedi ymuno â gweithlu'r Cyfnod Sylfaen. Sicrhawyd cymhareb gyfartalog Cymru gyfan, sef 1:8, yn 2008 a 2009 ar gyfer pob dosbarth a oedd yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 4 oed a gwelwyd cyfartaledd o 1:8:3 yn 2009 ar gyfer plant 4 i 5 oed.

**Swyddog Hyfforddiant a Chymorth**

10. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Swyddog Hyfforddiant a Chymorth sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni hyfforddi penodol yn y sector a gynhelir a'r sector a ariennir nas cynhelir, i sicrhau bod ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen wedi'u cymhwyso a'u hyfforddi'n addas. Mae'r dystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y swyddogion hyfforddiant a chymorth hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arferion addysgu a dysgu, mewn ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir.

**Hyfforddiant**

11. Mae holl hyfforddiant ymarferwyr awdurdodau lleol wedi'i adeiladu ar becyn Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaenol a grëwyd gan APADGOS. Roedd y Pecyn, a grëwyd mewn cydweithrediad â chynghorwyr ac arbenigwyr y blynyddoedd cynnar/Cyfnod Sylfaen, yn seiliedig ar brofiadau'r ysgolion a'r lleoliadau sydd wedi bod yn treialu'r

Cyfnod Sylfaen ers 2004/05. Mae'n allweddol i ddatblygu ac uwchraddio sgiliau gweithlu'r Cyfnod Sylfaen.

12. Mae'r Pecyn yn cynnwys 10 modiwl, pob un yn delio â phrif elfennau'r Cyfnod Sylfaen gan gynnwys Datblygiad Plentyn, Defnyddio'r Awyr Agored, Trosglwyddo, Arweiniad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ar hyn o bryd mae Prifysgol Bangor yn ei ystyried o ran ei achredu a bydd yn gysylltiedig â'r Radd Sylfaen mewn astudiaethau Plentyndod Cynnar a Chymorth Dysgu. Bydd achrediad yn annog ymarferwyr i hyrwyddo eu cymwysterau, gan gynyddu eu gwybodaeth a'u profiad o ddull y Cyfnod Sylfaen o addysgu a dysgu ar yr un pryd.

13. Mae gwneud y defnydd gorau o'r awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i ategu yn ystod cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ymarferwyr a gynhaliwyd gan APADGOS mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae bron i 1,500 o ymarferwyr naill ai wedi mynd i'r digwyddiadau hyn neu'n bwriadu mynd.

14. Ym mis Ebrill 2008, dyfarnwyd contract tair blynedd newydd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin mewn partneriaeth â Choleg y Drindod Caerfyrddin i gynyddu nifer yr ymarferwyr Cymraeg sydd ar gael i weithio yn sector addysg y blynyddoedd cynnar. Hyd yma mae tua 920 o ymarferwyr wedi cwblhau eu hyfforddiant.

**Amser i athrawon cymwysedig (10%)**

15. Mae pob awdurdod lleol yn darparu o leiaf 10% o amser athrawon cymwysedig yn achos darparwyr a ariennir nas cynhelir i ddatblygu ymarferwyr yn y sector hwnnw.

**Cymwysterau**

16. Roedd arolwg sampl o 150 o ysgolion yn mesur lefel y cymwysterau sydd gan gynorthwywyr dosbarth sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arolwg yn dynodi bod tua 75% o gynorthwywyr dosbarth sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen yn gymwys i Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol neu'n uwch. Mae 10% arall yn hyfforddi i gyrraedd lefel 3 neu'n uwch.

**Trefniadau Asesu**

17. Dylid asesu datblygiad pob plentyn ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen er mwyn gallu diwallu ei anghenion dysgu yn effeithiol . Ar ôl hynny, mae angen monitro cynnydd pob plentyn, a throsglwyddo'i gofnodion rhwng dosbarthiadau a sefydliadau. Mae'r arfer ledled Cymru yn amrywio ar hyn o bryd. Felly mae APADGOS yn treialu Proffil Asesu Datblygiad Plentyn y Cyfnod Sylfaen i'w ddefnyddio ledled Cymru erbyn 2011/12. Ystyrir sefydlu meincnod cenedlaethol ar gyfer plant 5 oed drwy asesu pob plentyn yn erbyn y proffil hwn.

18. I ategu asesiad ymarferwyr o ddatblygiad a chyrhaeddiad pob plentyn, mae APADGOS yn llunio deunyddiau dosbarth i'w defnyddio drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

**Deunydd enghreifftiol ar gyfer diwedd y cyfnod**

19. Asesir cyrhaeddiad pob plentyn yn statudol a'i adrodd yn 7 oed. Bydd asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn disodli asesiadau Cyfnod Allweddol 1 yn 2011/12. Mae APADGOS yn darparu deunyddiau dosbarth (DVD a Llawlyfr) sy'n rhoi enghreifftiau o'r safonau disgwyliedig pan fydd plant yn cwblhau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r deunyddiau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gyffredin o safonau'r Cyfnod Sylfaen, gan arwain at fwy o gysondeb ar draws Cymru.

**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen**

20. Ar hyn o bryd, prif ffynhonnell gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yw'r dystiolaeth a gesglir gan Estyn drwy ei waith arolygu rheolaidd. Y gwaith hwn oedd sylfaen y Pecyn Cymorth Chwarae a Dysgu Gweithredol a gyhoeddwyd yn 2009 a oedd yn tynnu ar yr arfer da a nodwyd mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae Estyn wrthi'n paratoi adroddiad ar effaith hyfforddiant ar addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr adroddiad, a gyhoeddir ym mis Ebrill, yn llywio gwaith APADGOS ar ddatblygu modelau hyfforddiant posibl i'w defnyddio gan awdurdodau lleol.

21. Bydd y Cyfnod Sylfaen yn destun rhaglen werthuso ac ymchwil fawr gan gynnwys prosiectau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Bydd y rhaglen yn cynnwys:
    - Canlyniadau i ddysgwyr - cyrhaeddiad ac agweddau;
    - Parodrwydd ac effeithiolrwydd ymarferwyr ynghyd ag effaith cymarebau oedolion/disgyblion y Cyfnod Sylfaen;
    - Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a threfniadau asesu cysylltiedig;
    - Cyllid a gwerth am arian.

22. Bydd gwaith tymor byr, yn nhymor yr haf 2010, yn edrych ar effaith ysgolion a lleoliadau peilot y Cyfnod Sylfaen ar addysgu a dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Gan fod yr ysgolion a'r lleoliadau peilot hyn ar y blaen i'r brif ffrwd, gall eu profiad hwy lywio eraill wrth reoli cyfnod pontio'r plant o'r Cyfnod Sylfaen pan fyddant yn 7 oed.

**Casgliad**

23. Mae'r buddsoddiad sydd eisoes wedi'i wneud yn dangos yn llawn ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i:
    - weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus;
    - sicrhau bod y gweithlu wedi'i baratoi'n llawn;
    - y dechrau gorau posibl mewn bywyd i'n plant ifanc.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

DRAFFT

**Diweddariad ar Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Grantiau Addysg Penodol (Awst 2009)**

**gan Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Mawrth 2010**

## Cyflwyniad

1. Ym mis Awst 2009, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad ar ei Ymchwiliad i Grantiau Addysg Penodol. Gwnaeth yr Adroddiad saith argymhelliad, gyda phump o'r rhain i'w cyflenwi gan Lywodraeth y Cynulliad (a'r ddau sy'n weddill i'w cyflenwi ar lefel llywodraeth leol). Cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ei hymateb i'r adroddiad ar 14 Medi 2009. Derbyniodd bedwar o'r pum argymhelliad ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth roi'r argymhellion hynny ar waith.

## Argymhelliad 1

*Dylai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau greu rhestr o'r holl grantiau penodol sydd ar gael i ysgolion a cholegau. Dylai hyn gynnwys* <u>*holl*</u> *grantiau Llywodraeth y Cynulliad, pa un a ydynt yn dod o'i hadran hi neu o adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad. Dylid cyhoeddi'r rhestr ar y rhyngrwyd mewn fformat sy'n galluogi ysgolion a cholegau i weld beth sydd ar gael a pha grantiau y gallent fod yn gymwys i'w cael. Dylai ddynodi faint o arian sydd ar gael ac o ble y gall ysgol neu goleg gael y wybodaeth ynglŷn â gwneud cais.*

## Diweddariad ar Argymhelliad 1

2. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad adran ar ei gwefan sy'n ymwneud yn benodol ag Ariannu Ysgolion. Gellir dod o hyd iddi yma. Mae'n cynnwys gwybodaeth am setliad refeniw'r awdurdodau lleol, cyllid grant wedi'i neilltuo, pennu a dosbarthu cyllidebau addysg awdurdodau lleol, caffael ysgolion, y fframwaith cyfreithiol, Fforymau Cyllideb Ysgolion, ystadegau ariannu ysgolion a chyllid cyfalaf. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad i gyhoeddi rhestr lawn o'r grantiau, a bydd yn cael ei hychwanegu at y dudalen ynghylch cyllid grant wedi'i neilltuo cyn gynted â phosibl, wedi i'r holl benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch blaenoriaethu a chyllido cynlluniau grant ar gyfer 2010-11.

## Argymhelliad 4

*Wrth i grant ddod i ben, dylid gwneud pob ymdrech i gyflawni amcan y grant drwy ddefnyddio'r ffrydiau ariannu presennol. Dylid anelu at wneud y broses yn fwy effeithlon ac yn llai beichus drwy ddefnyddio grantiau mwy, a llai ohonynt.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 4**

***Adolygiad annibynnol***

3. Ar 18 Ionawr 2010 cyhoeddais fy mod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r modd y dyrennir cyllid ar gyfer addysg yng Nghymru i ysgolion, colegau a phrifysgolion. Yr adolygiad hwn yw'r cam cyntaf tuag at symud ymrwymiad Prif Weinidog Cymru yn ei flaen i ailffocysu'r arian a fuddsoddir mewn addysg i sicrhau bod rhagor o arian yn cyrraedd y gwasanaethau rheng flaen.

4. Bydd dau gam i'r adolygiad, a bydd yr un cyntaf yn broses ddesg yn bennaf yn defnyddio'r wybodaeth fewnol ac allanol sydd eisoes ar gael i APADGOS. Gofynnir i randdeiliaid am fewnbwn penodol i ddechrau i brofi cywirdeb yr wybodaeth a gesglir a chael barn rhai rhanddeiliaid ynghylch cyfleoedd allweddol i ailffocysu adnoddau i'r rheng flaen.

5. Bydd cam dau'r adolygiad yn dilyn y cam hwn; bydd hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau cam un gan edrych yn fanylach ar gyfleoedd posibl sydd wedi'u pennu y bydd angen eu datblygu ymhellach. Bydd y cam hwn am fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sylweddol yn y data a bennir drwy gam un.

6. Mantais allweddol y dull dau gam hwn yw bod modd 'oedi ac adolygu' ar ôl y cam cyntaf. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pwyslais ar y meysydd mwyaf priodol gan ystyried y dadansoddiad sydd eisoes wedi'i wneud a mewnbwn cychwynnol y rhanddeiliaid sydd wedi'u targedu.

7. Ar ôl proses caffael drylwyr, penodwyd PricewaterhouseCoopers i gynnal cam cyntaf yr adolygiad. Mae'r cwmni wedi dechrau ar ei waith a bydd yn cyflwyno'i argymhellion erbyn diwedd mis Mawrth 2010.

8. Mae cylch gorchwyl cam cyntaf yr adolygiad i'w weld isod. Nid oes cylch gorchwyl ar gael ar gyfer cam dau ar hyn o bryd, ac eithrio'r wybodaeth gyffredinol a nodir uchod, gan y bydd yn seiliedig yn helaeth ar ganlyniadau cam un.

*Cylch Gorchwyl Cam Un*

9. Diben yr adolygiad fydd ailffocysu'r buddsoddiad mewn addysg i'r rheng flaen drwy bennu:

a) Y gwir gost o weinyddu addysg yng Nghymru.

b) Y nifer sy'n ymwneud â gweinyddu'r system addysg.

c) Y cyfleoedd i rannu gwasanaethau ac i fwrw ymlaen gydag agenda Beecham.

d) Y cyfleoedd i leihau'r baich biwrocrataidd ar y gwasanaethau rheng flaen.

e) Y cyfleoedd i symleiddio systemau a symud adnoddau i'r rheng flaen.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar bob un o'r ffrydiau ariannu addysg sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, bydd y ffocws mwyaf ar wariant dros £1 miliwn.

**Argymhelliad 6**

*Bod y Llywodraeth yn cyflwyno dull gweithredu sy'n golygu, wrth i grant penodol gael ei gyflwyno, ei bod yn ei gwneud yn glir beth fydd yn digwydd pan ddaw'r grant i ben. Er enghraifft, os bydd yn trosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw, dylai'r Llywodraeth gyflwyno ffigurau mynegol ar gyfer dyraniadau unigol yr adeg honno. Dylai hyn fod yn berthnasol i awdurdodau addysg lleol, ysgolion a'r sectorau addysg bellach ac uwch.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 6**

10. Mae'r "Cyd-Ddealltwriaeth Newydd Rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Leol yng Nghymru", a lofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Tachwedd 2009, yn disodli Cytundeb Essex/Jones. Cadarnhaodd y "Cyd-Ddealltwriaeth Newydd" y byddai'r Protocol Grantiau yn cael ei ddiweddaru. Bydd y diweddariad yn adlewyrchu'r holl bethau y mae angen eu hystyried wrth gyflwyno cynllun grant penodol, gan gynnwys Cytundebau Canlyniadau, sy'n nodi pan fo awdurdod yn gallu dangos bod ganddo'r capasiti i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn lleihau lefel y rheolaeth a'r cyfarwyddyd ynghylch sut y gellir defnyddio cyllid.

11. Dylai'r Protocol Grantiau diwygiedig gefnogi'r broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod adolygu gwariant nesaf, a fydd yn cychwyn yn 2011-12.

**Argymhelliad 7**

*Dylid cryfhau'r Protocol ar Grantiau wedi'u Neilltuo, y bydd yn rhaid ei ddiwygio ychydig yng ngoleuni'r newidiadau hyn, fel y nodir uchod a dylai'r Llywodraeth a'r awdurdodau lleol lynu ato.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 7**

12. Fel y nodwyd yn y diweddariad ar Argymhelliad 6, nod yr adolygiad presennol o'r Protocol Grantiau yw llunio fersiwn diwygiedig i gefnogi'r broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod adolygu gwariant nesaf, a fydd yn cychwyn yn 2011-12.